

Dydd Gwener 24^{ain} Chwefror 2017

Annwyl aelodau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys a'r Tîm Cymorth

Diolch am roi'r cyfle i mi ddarparu adborth ar y fersiwn ddrafft o'ch Asesiad Llesiant Lleol a anfonwyd i'r swyddfa yn Ionawr 2017.

Y peth cyntaf yr wyf am ei wneud yw gwneud yn glir fy mod i'n deall yn llwyr yr heriau yr ydych wedi eu hwynebu wrth ddatblygu'r asesiad y tro hwn, ac rwy'n llongyfarch eich tîm ar eu gwaith caled a'u hymdrechion.

Fy mhrif ffocws wrth ddarparu'r adborth hwn yw eich helpu i ystyried i ba raddau y bydd y gwaith a wnaed gennych hyd yn hyn yn eich helpu i bennu eich cydamcanion ac ymgymryd â chynllunio llesiant. I mi, y Byrddau Gwasanaethau Lleol sy'n rhoi un o'r cyfleoedd mwyaf i'r sector cyhoeddus yng Nghymru newid y ffordd yr ydym yn gwneud pethau yng Nghymru a llunio penderfyniadau ar y cyd a darparu gwasanaethau a fydd o fudd i genedlaethau'r dyfodol.

Mae eich asesiad chi yn rhan allweddol o hyn, ac er fy mod yn deall na fydd, o bosibl, yn ddarlun llawn ar yr adeg y byddwch yn ei gyhoeddi, y mae'n bwysig ei fod yn rhoi darlun clir a deallus o lesiant Powys a llesiant eich cymunedau, sy'n berthnasol yn awr ac i'r dyfodol. **Dylai eich asesiad eich galluogi i nodi'n glir yr heriau allweddol ar gyfer eich ardal a'ch cymunedau, gan ddatblygu cydamcanion sy'n mynd i'r afael â'r heriau hyn.**

Atodaf ddogfen sy'n rhoi adborth manwl ar eich asesiad drafft, a'r hyn y dylech ystyried adeiladu arno yn y tymor byr wrth i chi symud tuag at gynllunio llesiant, ac yn nhermau asesu llesiant yn y dyfodol.

Yn ystod 2017-18, un o'ch tasgau allweddol fydd datblygu eich cydamcanion llesiant fel rhan o'ch Cynllun Llesiant. Mae'r ddeddfwriaeth yn gofyn eich bod yn ceisio cyngor gennyf ar sut mae cymryd camau i gyflawni eich amcanion yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy (pum dull o weithio).

Nodaf isod rai o'r pethau y byddaf yn chwilio amdanynt wrth i'm swyddfa barhau i weithio gyda chi. Yn fy marn i, mae'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) sydd wedi dangos eu bod eisoes yn rhoi sylw i'r pum dull o weithio, mewn sefyllfa dda i ddatblygu amcanion a Chynlluniau Llesiant, a fydd yn fanteisiol i bob sefydliad cysylltiedig, o ran mwyafu eu cyfraniad cyfunol i'r nodau, a mynd i'r afael â heriau sy'n pontio'r cenedlaethau.

Roeddwn yn falch o weld eich bod wedi gwneud dechrau da â'ch dull o **gynnwys pobl a chymunedau** wrth ddatblygu eich asesiad, trwy'r amrywiaeth o ddulliau yr ydych yn eu defnyddio, a bod hynny'n parhau. Byddwn yn eich annog i barhau â hyn wrth i chi symud tuag at gynllunio llesiant, gan sicrhau

eich bod yn parhau i roi cyfleoedd i ystod eang o randdeiliaid a dinasyddion ymgyfrannu a dylanwadu ar ddatblygiad eich amcanion, a medru dangos bod eu mewnbwn yn cael effaith ar yr hyn a wnewch.

Mae strwythur eich dogfennau i'w ganmol - mae'n ddiddorol iawn eich bod wedi nodi 32 o faterion trawsbynciol sy'n bwysig i lesiant Powys, ac mae'r rhain yn darparu sylfaen gref i chi symud tuag at gynllunio llesiant effeithiol. Credaf fod y strwythur hwn yn addas iawn ar gyfer archwilio'r **integreiddio** pellach rhwng llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol, a chreu cysylltiadau cryfach â'r saith nod llesiant. Bydd hyn yn arbennig o bwysig wrth feddwl am rolau cymharol eich sefydliadau gwahanol wrth i chi **fwyafu eich cyfraniad** tuag at y nodau.

Mae eich dull o feddwl am heriau Powys yn y tymor byr, y tymor canol a'r tymor hir yn ddiddorol, ac mae data cyfoethog iawn yn yr adrannau senario sy'n cynnig dadansoddiad craff. Credaf fod potensial i chi adeiladu ar hyn a chanolbwyntio mwy ar y **tymor hir** yn eich gwaith wrth symud ymlaen, ac archwilio pa rai o'ch cymunedau sy'n arbennig o fregus neu gydnerth yn wyneb y tueddiadau tymor hir a nodwch.

Un o elfennau allweddol y ddeddfwriaeth yw'r ffocws ar **atal problemau** rhag digwydd yn hytrach na gwneud dim mwy nag ymateb iddynt, ac rydych wedi cydnabod hynny yn rhai o'r 32 o faterion a nodwyd gennych. Mae hwn yn faes lle byddwn i'n eich annog i roi ystyriaeth fanwl i'r hyn y mae'r data a'r dystiolaeth yn ei ddweud wrthyh, er mwyn gwneud synnwyr o'r heriau allweddol a nodwyd gennych.

Ac mae **cydweithio** yn allweddol i hyn oll - mae'n amlwg bod gennych sylfaen gref yn barod trwy ymgyfraniad y gwahanol bartneriaid yn natblygiad yr asesiad hyd yn hyn. Mae cyfle gennych bellach i symud eich gwaith partneriaeth i lefel newydd, gan gydweithio drwy gyfrwng adnoddau a darganfod dulliau newydd o ddelio â hen broblemau, a dylai eich asesiad eich helpu i nodi'r cyfleoedd mwyaf ffrwythlon ar gyfer gwneud hyn.

Mae eich tîm cymorth wedi gweithio'n galed i ddatblygu'r asesiad hwn a bydd ar y bobl sy'n cynorthwyo eich cynlluniau llesiant angen eich ymrwymiad a'ch cefnogaeth lwyr. Nodweddion allweddol yn hyn o beth, fwy na thebyg, fydd yr arweinyddiaeth a ddangosir gennych a'ch parodrwydd i roi lle a chaniatâd i bobl archwilio dulliau newydd o fynd i'r afael â hen broblemau. Yn ei hanfod, mae'r newid diwylliant hwn yn crynhoi natur Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Gan ragweld y bydd gofyn i mi ddarparu cyngor ar y modd y dylech gymryd camau i gyflawni eich cydamcanion, hoffwn weld manylion pellach ynghylch sut byddwch chi'n defnyddio eich asesiad wrth i chi symud tuag at gynllunio llesiant. Byddwn yn ddiolchgar os gallech roi gwybod i'm swyddfa sut yr ydych wedi ymateb i'n hadborth. Gan gadw hyn mewn golwg, bydd hefyd yn bwysig i chi roi fy adborth i i'r pwyllgor craffu sy'n arwain y gwaith o graffu ar waith y BGC. Nodwyd bod angen ymagwedd fwy adeiladol tuag at graffu a bod hynny'n rhan bwysig o fwyafu'r gweithredu ar y cyd ar lefel leol.



Rwy'n gobeithio bod ein hadborth yn glir ac yn ddefnyddiol yn y cyfnod hwn. Fodd bynnag, mae'n rhaid i mi ailadrodd nad wyf yn gweld datblygu eich asesiad fel digwyddiad unwaith yn unig. Wrth symud ymlaen, byddaf yn rhoi cyfleoedd i'r BGCau rannu gwersi ac arfer gorau. Gobeithio y byddwch chithau'n ymwneud â hynny, er mwyn darparu'r llwyfan gorau i chi gyflawni eich ymrwymadau parhaus o dan y Ddeddf.

Cofion gorau

Sophie Howe
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Adborth oddi wrth Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ar Aseiad o Lesiant Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys

1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad canlynol yn rhoi adborth Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys ar y fersiwn ddrafft o *ddeunydd Drafft Ymgynghori Aseiad Llesiant Powys*, a gyhoeddwyd yn Ionawr 2017. Mae'r adborth hwn yn seiliedig ar yr adolygiad a wnaed gan ein tîm prosiect¹ o'r dogfennau a'r trafodaethau allweddol canlynol:

- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys - Aseiad Llesiant (Medi 2016) - y 13 dogfen ganlynol:

- | | |
|--------------------------------------|---|
| 1. Prif Ddogfen; | 9. Canfyddiadau'r aseiad a'r effaith ar y Nodau Llesiant; |
| 2. Prif ganfyddiadau cymdeithasol; | 10. Data y bernir nad yw'n cael effaith |
| 3. Prif Ganfyddiadau'r Amgylchedd; | 11. Bylchau yn ein tystiolaeth; |
| 4. Prif Ganfyddiadau Diwylliant; | 12. Ffynonellau gwybodaeth allweddol; |
| 5. Prif Ganfyddiadau'r Economi; | 13. Mesurau Cenedlaethol; |
| 6. Cysylltiadau ac ymatebion posibl; | |
| 7. Cynhyrchu ein Hasesiad Llesiant | |
| 8. Ymgysylltu; | |

- trafodaeth rhwng y tîm prosiect ac aelodau o dîm y BGC ar 17^{eg} Chwefror 2017.

Bwriedir bod yr adborth hwn yn cael ei ddefnyddio i lywio cyhoeddi'r aseiad yng ngwanwyn 2017 lle bydd hynny'n bosibl a chan gydnabod yr amserlenni sy'n bodoli, ond mae'n bwysicach ei fod yn llywio'r prosesau parhaus o ddatblygu eich aseiad a'ch cynlluniau llesiant.

Mae'r aseiad wedi cael ei adolygu gan y tîm prosiect gan ddefnyddio set o feini prawf a ddatblygwyd yn arbennig i ffocysu ar agweddau ar waith cynhyrchu, methodoleg a dadansoddi yr aseiad a gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r meini prawf hyn yn ein galluogi i adolygu'r ystod eang o ymagweddau tuag at yr aseiad llesiant lleol a ddefnyddiwyd, ledled Cymru. Mae hyn hefyd wedi ein galluogi i ddarparu adborth pwrpasol i'r BGCau, gan amlygu cryfderau a meysydd y gellid eu gwella. Bydd yr ymagwedd gyson hon hefyd yn galluogi'r Comisiynydd i nodi materion allweddol ac amlygu

¹ Dr. Alan Netherwood, Netherwood Sustainable Futures, Dr. Andrew Flynn, Prifysgol Caerdydd a Dr. Mark Lang, Mark Lang Consulting

cyfleoedd ar gyfer dysgu ar y cyd, ar lefel Cymru gyfan, ar gyfer yr ystod eang o gyrff sector cyhoeddus a chyrrff eraill sy'n ymwneud â chynllunio llesiant.

Rydym yn deall bod yr Asesiad Llesiant yn broses barhaus, ac y bydd gwaith pellach yn cael ei wneud yn ystod y misoedd sy'n dod, ond mae'n bwysig nodi'r sylwadau canlynol a gweithredu arnynt wrth i'r asesiad llesiant gael ei ddatblygu a'i addasu, ac wrth adeiladu arno i lywio cynllunio llesiant ar draws y BGC.

2. Nodau llesiant cenedlaethol

Un o'r materion rydym wedi ei ystyried yw pa mor effeithiol yr adlewyrchwyd y saith nod llesiant cenedlaethol yn yr asesiad, gan fod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gofyn bod BGCau yn dangos sut maent yn cynllunio i fwyafu eu cyfraniad i'r nodau. Mae'n bwysig bod cysylltiad clir rhwng y data mewn asesiadau, y dehongliad ohono a'n dealltwriaeth o bob agwedd ar lesiant yn ein cymunedau. Deallwn y bydd BGCau yn datblygu gwahanol ddulliau o adlewyrchu llesiant; yn achos Powys rhwng llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol a'r 32 mater hollbwysig o dan y themâu hyn.

Yn yr ymgynghori â rhanddeiliaid, mae'r BGC wedi mynd ati yn eglur i gynyddu eu dealltwriaeth o effaith y 32 mater allweddol hyn ar y saith nod llesiant cenedlaethol a amlinellwyd yn nogfen 9. Mae'r dull gweithredu hwn i'w ganmol, gan ymgysylltu ag ystod mor eang o randdeiliaid er mwyn ystyried effeithiau trwy gyfrwng y raddfa negyddol/gadarnhaol.

Er bod y dull 'sgorio' hwn yn darparu sylfaen gref iawn ar gyfer deall y berthynas, byddai'r asesiad yn elwa hefyd o fwy o naratif ysgrifenedig eglur ar *sut* mae'r materion sy'n codi ym mhob adran yn cyfrannu atynt neu'n effeithio arnynt.

Gallai dadansoddiad pellach o'r deunydd hwn wella'r asesiad a dealltwriaeth partneriaid. Mae'r canlynol yn gwestiynau allweddol y gellid eu hystyried: Sut gallai'r BGC wneud y cyfraniad mwyaf yn y meysydd a nodwyd? Ym mha rai o feysydd gweithgaredd y BGC y mae angen gwella'r cyfraniad? Ble mae'r cyfleoedd i gyflawni nodau lluosog trwy roi sylw i faterion allweddol? A oes unrhyw nodau na fydd Powys yn cyfrannu atynt trwy'r 32 mater ac y mae angen deall sut y *gallent* gyfrannu (e.e. nod Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang?) Byddai'r dadansoddiad hwn yn llywio datblygiad y Cynllun ac yn fodd i'r BGC ddeall arwyddocâd ac effaith bosibl gweithredoedd ar y cyd i *fwyafu* eu cyfraniad.

3. Cynnwys data – ardal a lle

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gofyn bod asesiadau llesiant yn canolbwyntio ar yr ardal a'r 'lle' ac yn adlewyrchu'r amrywiaeth o gymunedau ledled eich ardal. Rydym wedi ystyried i ba raddau y mae cynnwys data eich asesiad yn gwneud hynny.

Mae'n gadarnhaol iawn bod yr asesiad yn cydnabod pwysigrwydd yr ymagwedd seiliedig ar le trwy ddefnyddio saith ardal gymunedol, gan ddefnyddio data LSOA (Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is), MSAO (Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol) a data ansoddol. Mewn mannau, gellid cryfhau'r dehongliad o'r data hwn, er enghraifft, drwy ychwanegu cyd-destun neu eglurhad at rai o'r mapiau a data.

Deallwn hefyd, o'r sgwrs ffôn gyda thîm y BGC, fod yr ymgynghori cyfredol yn cynnwys trafodaethau seiliedig ar le gyda chymunedau, a fydd yn helpu i adeiladu'r darlun hwn yn y misoedd nesaf. Yn y dyfodol, dylid gwella'r asesiad drwy ddadansoddi mwy ar yr heriau allweddol ym mhob un o'r saith cymuned a pha mor hanfodol yw'r materion hyn i bob ardal gymunedol ac i Bowys yn gyffredinol (gweler y pwyntiau yn nes ymlaen ynghylch *dehongli* data). Ar hyn o bryd, ymddengys bod y dadansoddiad ar gyfer pob un o'r saith cymuned yn cael ei arwain i raddau helaeth gan ddata e.e. - er bod bwyta ffrwythau a llysiau yn bwysig, nid oes fawr o ddealltwriaeth o wead cymdeithasol pob un o'r ardaloedd hyn a'r heriau hollbwysig i lesiant. Byddai mynd i'r afael â'r berthynas hon rhwng dangosyddion a naratifau yn cryfhau'r asesiad.

O ran y 32 mater hollbwysig i Bowys, mae'r cwestiwn "a oes unrhyw wahaniaethau lleol penodol" yn gyfle i ddatblygu rhagor ar eich tystiolaeth o lesiant. Mae'n amlwg nad oes data lleol ar gael ar hyn o bryd mewn llawer o ardaloedd, ond bydd yn bwysig deall y bylchau lleol hyn ac ymateb iddynt (trafodir hyn ymhellach ym mhwynt 11 isod).

4. Cynnwys data - anghenion gwasanaethau cyhoeddus

Credwn ei bod yn bwysig bod gennych ddarlun clir o wahanol anghenion pobl a chymunedau yn awr ac yn y dyfodol, a bod goblygiadau'r rhain yn cael eu deall. Rydym wedi ystyried i ba raddau y mae cynnwys data'r asesiad yn ffocysu ar anghenion gwasanaethau cyhoeddus, o fewn cymunedau ac ar gyfer grwpiau penodol o bobl.

Un o flaenoriaethau fy swyddfa yw annog cyrff cyhoeddus a BGCau i sicrhau eu bod, yn y lle cyntaf, yn cynnwys pobl a chymunedau mewn ffyrdd sy'n rhoi mwy o ymwybyddiaeth iddynt o brofiadau bywyd pobl o gyrff cyhoeddus, ac yn ail, eu bod yn gweithredu ar yr ymwybyddiaeth hon pan fyddant yn gwneud penderfyniadau ac yn darparu gwasanaethau.

Mae'n gadarnhaol gweld y ffocws ar anghenion gwasanaethau cyhoeddus yn y cwestiynau a ddefnyddiwyd ar y 32 mater, yn enwedig: beth mae dinasyddion yn ei ddweud; sut mae gwasanaethau yn cyfrannu; a yw anghenion yn cael eu diwallu? - a geiriad y negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol. Er bod y cwestiynau allweddol 'beth mae'r data yn ei ddweud wrthym' a 'beth yw'r prif ganfyddiadau ynghylch mynediad at wasanaethau' yn cyffwrdd ar fynediad at wasanaethau - byddai'n dda gweld

crynodeb o faterion cyrchu gwasanaethau yn y saith cymuned, er mwyn deall a darlunio'r heriau gofodol sydd ynghlwm wrth ddarparu gwasanaethau ar draws ardal ddaearyddol eang.

Byddai'n fanteisiol cynnwys adran benodol ynghylch sut mae'r Asesiad Poblogaeth wedi bwydo proses yr Asesiad Llesiant, a Llesiant cymdeithasol yn arbennig - o gofio bod ffocws ar grwpiau ag anghenion penodol yn yr adran hon. Nodwn fod y mater hwn wedi'i drafod yn ystod yr alwad gyda'r tîm.

Mae'n amlwg eich bod wedi casglu llawer o dystiolaeth y gellid ei thynnu ynghyd mewn crynodeb ehangach o'r bylchau arwyddocaol mewn darparu gwasanaethau cyhoeddus a'r heriau i wasanaethau yn y tymor byr, y tymor canol a'r tymor hir. Dylid mynd i'r afael â hyn yn y fersiynau o'r asesiad yn y dyfodol er mwyn i'r BGC wybod ymhle y mae angen gweithredu ar y cyd.

5. Dadansoddiad meintiol ac ansoddol

Rydym yn cydnabod her cydbwysio data, sylwadau a thystiolaeth er mwyn dod i ddealltwriaeth gyflawn o lesiant cymunedau ac unigolion yn y tymor byr, y tymor canol a'r tymor hir. Un o'n prif ystyriaethau fu i ba raddau y mae dulliau a dadansoddiadau meintiol ac ansoddol yr asesiadau yn rhoi darlun cyffredinol o lesiant amgylcheddol, economaidd, diwylliannol a chymdeithasol, ynghyd â sylwebaeth gychwynnol ar oblygiadau'r 'darlun' hwn i gymunedau h.y. beth sydd o bwys mewn gwirionedd?

Mae'r modd y gosodwyd yr adrannau ar y 32 mater hollbwysig i'w ganmol, gan ddarparu strwythur y gellir ei boblogi â data newydd wrth iddo ddod i'r golwg. Mae hwn yn ddull arloesol ac yn ffordd hawdd, o bosibl, i gyrff cyhoeddus ddeall materion cymhleth. Mae cwestiynau syml yn darparu ffrâm i'r hyn a wyddoch, a'r hyn y mae angen i chi wybod o ran: y prif ganfyddiadau; yr ardal leol; dinasyddion; staff; trydydd sector; sector preifat; camau ataliol; bylchau; tueddiadau cenedlaethol; senarios (tymor byr, tymor canol a thymor hir), gwasanaethau ac anghenion. Mae'r cwestiynau hyn, lle bydd awduron yn ymateb yn dda iddynt, yn fodd i amlygu'r heriau allweddol sy'n wynebu Powys, cymunedau a gwasanaethau.

Mae'n amlwg bod amrywiaeth mawr yn ansawdd y mewnbwn i'r gronfa ddata hon ar hyn o bryd, ac mae angen ei wella mewn rhai meysydd (gweler y sylwadau penodol isod). Dylid annog partneriaid i fabwysiadu arddull naratif er mwyn darparu dehongliad a dadansoddiad yn ogystal â graffiau a thablaau. Enghraifft o wneud hynny'n llwyddiannus yw'r adran Gofalwyr sy'n Oedolion, ond mae'r adran anghydraddoldebau iechyd yn llai llwyddiannus. Yn gyffredinol, mae hon yn sylfaen gadarn ar gyfer datblygu tystiolaeth, mynd i'r afael â bylchau mewn tystiolaeth, a deall a dehongli data cymhleth ynghylch eich blaenoriaethau ar gyfer Powys yn gyffredinol ac ar gyfer ardaloedd lleol penodol.

Mae'r paragraffau canlynol yn cynnig adborth mwy penodol ar bob thema.

Prif ganfyddiadau cymdeithasol - Mae'r adran hon yn darparu data ynghylch 15 o faterion cymdeithasol allweddol sy'n troi yn gyffredinol o gwmpas iechyd, plant a phobl ifanc, ac amddifadedd. Mae'n amlwg bod y data sydd ar gael ac, o bosib, y meysydd traddodiadol lle bydd gwasanaethau cyhoeddus yn casglu data, wedi dylanwadu ar y rhain. Deallwn o'r sgwrs ffôn fod rhywfaint o adfyfrio wedi bod ar a yw'r rhain (a materion hollbwysig eraill o blith y 32) yn ddigon i ddeall llesiant cymdeithasol ym Mhowys

Credwn y gellid rhoi ffocws mwy pendant ar *asedau cymdeithasol* ym Mhowys, ac y gellid casglu tystiolaeth ansoddol fel rhan o'r broses cynllunio llesiant wrth symud ymlaen. Gallai'r ffocws hwn ar asedau ystyried y materion allweddol canlynol: cryfder y sector cymunedol o ran cefnogi llesiant cymdeithasol, natur y rhwydweithiau cymdeithasol, gwedd cymdeithasol trefi a phentrefi, a rôl yr economi anariannol o ran llesiant cymdeithasol, asedau ffisegol, banciau bwyd, trosglwyddo asedau cymunedol ac ati, a lefelau (a chryfder) gofal di-dâl. Mae'n amlwg bod rhywfaint o orgyffwrdd â'r thema ddiwylliannol a chymuned; fodd bynnag, gallai'r set gyfredol o ddangosyddion gyfyngu ar ein dealltwriaeth o lesiant yn hytrach na helpu i *ddarlunio* llesiant cymdeithasol. Mae angen i'r hyn sy'n dda am fyw ym Mhowys fod yn fwy amlwg yn yr adran hon.

Prif ganfyddiadau'r economi. Mae'r adran hon yn darparu 5 mater hollbwysig: seilwaith; twf busnes; twristiaeth; cyflogaeth a sgiliau, a thlodi ac amddifadedd. Mae'r adran hon yn arbennig o dda ynghylch natur a lleoliad busnes ar draws Powys ac ynghylch dosbarthiad ac effaith tlodi ac amddifadedd, gan dynnu ar ddata ONS a data ansoddol o arolygon dinasyddion. Er ei bod yn sôn am seilwaith critigol o ran trafndiaeth, dŵr ac ynni, mae'r adran yn rhoi sylw mawr i fand eang uwchlaw'r materion hyn. Pa mor gydnherth yw'r seilwaith ym Mhowys i gefnogi gweithgaredd busnes? Ble bydd angen buddsoddi yn y tymor canol i'r tymor hir, a beth fydd hyn yn ei olygu i wasanaethau cyhoeddus? Mae'n gadarnhaol clywed bod cysylltiad yn datblygu rhwng proses y Cynllun Datblygu Lleol a'r asesiad, gan y bydd datblygu tystiolaeth ynghylch y materion seilwaith strategol hyn yn hollbwysig i ddeall llesiant economaidd yn y tymor hir. Gellid cryfhau a helaethu'r data cyfredol mewn rhai meysydd e.e. mae angen gwell eglurhad ynghylch "rhoi'r Strategaeth Datblygu Economaidd ar waith" er mwyn i hyn fod yn ystyrlon ac ymgysylltu â phartneriaid.

Gellid rhoi ffocws cryfach hefyd ar yr *asedau* economaidd y mae poblogaeth sy'n heneiddio yn eu cynnig, o ran sgiliau, gwirfoddoli, gwariant ar ôl ymddeol, twristiaeth. Gall hyn hefyd ddarparu darlun ehangach o lesiant economaidd i adeiladu ar y ffrâm a ddatblygwyd yn barod. Hefyd, o ran cydberthnasoedd Powys ag economïau lleol eraill (gan gynnwys economïau dros y ffin), byddai'r adran hon yn elwa o ddeall patrymau cymudo a rôl hynny mewn llesiant lleol.

Deallwn fod Brexit yn achosi ansicrwydd mawr ond mae goblygiadau posibl Brexit, ar gyllido gwledig er enghraifft, yn fater allweddol a fydd yn cael effaith ar Bowys ar draws y themâu llesiant. Dylid cynnwys rhyw ymwybyddiaeth o'r effeithiau tebygol ar ddinasyddion Powys wrth i'r BGC symud ymlaen â'r cynllunio llesiant.

Diwylliant a Chymuned - mae'r canfyddiadau allweddol yn canolbwyntio ar y Gymraeg, trosedd, llety i'r henoed, 'diwylliant' byw'n annibynnol a gwasanaethau cymunedol. O ran ei naws, mae'r adran hon yn ffocysu mwy ar wasanaethau a dangosyddion ac, yn yr un modd â'r adran Gymdeithasol, fe ddylai roi llawer mwy o sylw i *asedau* diwylliannol Powys. Deallwn o'r sgwrs ffôn gyda thîm y BGC y bydd mater cyllid cyhoeddus yn rhan o adran ehangach sy'n amlinellu'r cefndir ar ddechrau'r asesiad. Mae hyn i'w groesawu. Gallai'r adran fod yn llawer mwy *disgrifiadol* wrth sôn am fywiogrwydd diwylliant Powys o ran y celfyddydau, iaith, rhwydweithiau cymdeithasol, gweithgareddau diwylliannol, bwyd a diod lleol, sioeau amaethyddol, rhwydweithiau gwybodaeth a gwirfoddoli. Unwaith eto, beth sy'n dda am ddiwylliant Powys a beth all y gwasanaethau cyhoeddus adeiladu arno er mwyn gwella llesiant? Mae hwn yn faes lle byddem yn disgwyl i'r asesiad wella.

Prif ganfyddiadau'r amgylchedd - mae'r naratif yn yr adran hon yn nodi heriau allweddol *cyffredinol* sy'n wynebu gwasanaethau ecosystemau ac ansawdd amgylcheddol, ac mae angen rhoi mwy o bwyslais ar sut mae materion ym Mhowys yn effeithio ar nod llesiant cenedlaethol cydnerthedd. Gellid gwella'r adran hon trwy ddatblygu dealltwriaeth o arwyddocâd yr effeithiau cyffredinol hyn (e.e. y newid yn yr hinsawdd) ar ardaloedd lleol arbennig. Byddai dealltwriaeth ehangach o'r goblygiadau i adnoddau pridd Powys yn ddefnyddiol hefyd (yn ychwanegol at fawn). Mae angen i'r naratif fod yn gliriach mewn manau e.e. "asiantaethau amrywiol". Byddai'r adran hon yn elwa o'r data trafniadaeth sydd ar gael gan bartneriaid trafniadaeth ynghylch 'teithio o amgylch Powys'. Hefyd, gellid cynnwys dealltwriaeth o'r seilwaith ffyrdd a'i gydnerthedd yn yr adran hon.

Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog: Un maes allweddol y dylid rhoi sylw iddo yw mwy o gydnabyddiaeth fod ardal Powys yn ffurfio cyfran helaeth o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae hwn yn ased cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol pwysig ac unigryw y gellid ei adlewyrchu'n well yn yr asesiad. Mae'n amlwg bod gan barciau cenedlaethol ddylanwad pwysig nid yn unig ar lesiant trigolion ond hefyd ar lesiant y genedl, a'u bod yn dylanwadu'n uniongyrchol ar niferoedd yr ymwelwyr â Phowys ac ar economïau lleol. Mae angen ystyried cyfraniad Powys yn hyn o beth ynghyd â gwerth y Parc Cenedlaethol wrth i'r cynllun llesiant ddatblygu.

6. Heriau allweddol

Mae'n bwysig bod asesiadau llesiant, wrth asesu cyflwr llesiant, yn canolbwyntio ar yr heriau allweddol i lesiant yn y tymor byr, y tymor canol a'r tymor hir, yn ogystal ag ar y nodweddion cadarnhaol ac asedau yn yr ardal. Mae hyn yn cynnwys cyfaddawdu rhwng y gwahanol nodau llesiant, tensiynau, a diffygion yn yr ardal.

Fel y disgrifiwyd mewn pwyntiau yn gynharach yn y ddogfen hon, mae'r asesiad yn cynnig naratif cryf iawn, mewn manau, ynghylch yr heriau allweddol sy'n wynebu Powys, fodd bynnag mae'r materion hyn yn aml *o fewn* darnau o destun ac ni thynnir sylw digonol atynt. Fel y dywedwyd, byddai mwy o ddehongli yn helpu i dynnu sylw at densiynau, cyfaddawdau a heriau allweddol a dylai hon fod yn ystyriaeth i awduron allweddol wrth iddynt ddatblygu'r asesiad - er mwyn llywio amcanion y cynllun llesiant.

Cyfeirir lawer gwaith, mewn llawer o gyd-destunau gwahanol, at effaith Brexit, y newid yn yr hinsawdd, cyni, diwygio lles, y gostyngiad yn y boblogaeth iau, tueddiadau iechyd, hygyrchedd gwledig, ac mae angen tynnu'r rhain ynghyd yn y ddogfen. Mae data cyfoethog iawn yn yr adrannau senario (tymor byr, tymor canol a thymor hir) sy'n rhoi dadansoddiad craff mewn manau. Byddai'r darn cyd-destunol a gynllunnir yn lle da i ddisgrifio natur yr heriau pwysig hyn, gan dynnu ar y deunydd hwn, i fod yn eglur ynghylch eu heffeithiau ac arwyddocâd yr effeithiau hyn i lesiant. Gellid gwella'r Brif Ddogfen trwy ddarparu'r cyd-destun eang hwn fel rhagflaenydd i'r drafodaeth ar y 32 mater hollbwysig.

Hefyd, gellid gwella'r asesiad trwy ddarparu gwell dealltwriaeth o sut mae'r heriau i'w gweld mewn gwahanol rannau o Bowys a pha ardaloedd penodol sy'n gydnerth neu'n fregus yn wyneb tueddiadau yn awr ac yn y dyfodol.

7. Ymgysylltu, ymgyfrannu a chydweithio

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn dangos yn glir bod cydweithio ac ymgyfrannu yn ddau o'r pum dull o weithio y mae angen i BGCau eu defnyddio'n gyson yn eu gwaith. O ganlyniad, bu gennym ddiddordeb arbennig yn lefel a dulliau ymgysylltu, ymgyfrannu a chydweithio ar draws y bartneriaeth wrth gynhyrchu'r asesiad, gan gynnwys ymgysylltu â chymunedau, y cyhoedd, y trydydd sector a sefydliadau sector preifat.

Mae'n amlwg o Ddogfennau 7 ac 8 i ymagwedd gytbwys at ymgysylltu fod yn rhan o'r broses asesu. Sylweddolwn o'r sgwrs ffôn gyda thîm y BGC eich bod ar ganol gwaith i ymgysylltu â dinasyddion a chymunedau ynghylch yr hyn y mae'r asesiad yn ei ddweud am lesiant ym Mhowys, ac y bydd yr ymatebion i'r ymgynghori hwn yn cael eu cynnwys yn yr asesiad wrth i'r broses symud ymlaen.

Mae'n amlwg eich bod wedi manteisio ar Arolygon Dinesydd a mecanweithiau sefydledig i lywio'r asesiad ac wedi defnyddio negeseuon ar y Cyfryngau Cymdeithasol, ymarferion mapiau meddwl (gellid darlunio'r rhain yn gliriach) a chynnal Gweithdai Rhanddeiliaid i ddatblygu eich dealltwriaeth o lesiant. Deellir hefyd o'r sgwrs ffôn fod ymdrech fawr wedi'i gwneud i lywio'r asesiad trwy sesiynau casglu gwybodaeth ac ymgynghori â rhanddeiliaid. Mae angen canmol yr holl waith hwn a'i amlygu'n gliriach yn y Brif Ddogfen.

Mae'n dda clywed hefyd i ba raddau y bu'r asesiad hwn yn gatalydd i ddatblygu cydweithio ar draws y BGC. Mae'n amlwg bod rhai partneriaid allweddol wedi gwneud cyfraniad cryf o ran darparu data - a byddai deall eu rolau cymharol o ran datblygu pob rhan o'r asesiad yn ddefnyddiol, er mwyn cydnabod eu mewnbwn.

Mae'n amlwg o strwythur yr asesiad y bydd hwn yn parhau i fod yn waith mawr yn y tymor byr i'r tymor canol, a chredwn y dylai'r BGC ymdrechu ac ymrwymo ymhellach i adeiladu ar y gwaith hwn - nid yn unig i lywio'r cynlluniau llesiant, ond i ddatblygu tystiolaeth yn fwy effeithlon ledled Powys.

8. Integreiddio

Un o nodau allweddol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw datblygu integreiddio ar bob lefel ar draws y sector cyhoeddus. Credwn ei bod yn bwysig deall y gydberthynas rhwng llesiant amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol. O ganlyniad, rydym wedi bod yn awyddus i ystyried faint o integreiddio sy'n bodoli rhwng polisi traddodiadol a seilos sefydliadol wrth gynhyrchu'r asesiad. Mae'n bwysig bod y data a restrir yn yr asesiad yn cael ei archwilio ar draws y seilos polisi a sefydliadol traddodiadol er mwyn dehongli beth mae hyn yn ei olygu i lesiant yn yr ardal.

Fel y trafodwyd yn flaenorol, dylai dull Powys o ddeall effeithiau cymharol pob mater hollbwysig ar y saith nod llesiant cenedlaethol, a'r dadansoddiad dilynol o'r wybodaeth hon, gynnig sylfaen dda ar gyfer archwilio'r rhyng-gysylltiadau rhwng llesiant amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol. Mae lle i roi mwy o ystyriaeth i'r data o bob adran (ac ym mhob adran) ochr yn ochr â data'r lleill, ac ystyried y cydberthnasoedd rhwng y data.

Mae hwn yn faes y dylech roi ystyriaeth bellach iddo wrth i chi gwblhau eich asesiad ar gyfer ei gyhoeddi ac wrth i chi symud tuag at gynllunio llesiant. Mae lle i integreiddio rhagor ac ymchwilio ymhellach i'r berthynas rhwng polisi a heriau ym mhob thema - er enghraifft arwahanrwydd gwledig a iechyd meddwl, datblygu economaidd a pherygl llifogydd, seilwaith ynni a datblygu economaidd. Mae angen archwilio'r cydberthnasoedd hyn fel rhan o ymdrech ehangach i ddehongli'r data a gasglwyd hyd yn hyn.

9. Rhagwelediad a thueddiadau'r dyfodol

Un o heriau allweddol y ddeddfwriaeth yw ystyried llesiant yn y tymor byr, y tymor canol *a'r tymor hir* trwy gydol proses yr asesiad a'r Cynllun. Mae gennym ddiddordeb yn lefel y rhagwelediad a'r defnydd a wneir o ddadansoddi tueddiadau'r dyfodol wrth gynhyrchu'r asesiad ynghyd â chydabyddiaeth o lesiant cenedlaethau'r dyfodol. Deallwn o'r sgwrs ffôn fod cyfle i ddatblygu'r asesiad er mwyn cynnwys mwy o ddadansoddi ar effaith tueddiadau'r dyfodol ar lesiant a byddem yn eich annog i fynd ar drywydd hwn o fewn y BGC.

Fel y trafodwyd ym mhwynt 5, mae'r senarios tymor byr, tymor canol a thymor hir o dan bob un o'r 32 mater hollbwysig yn gyfle i'r BGC ddatblygu eu dealltwriaeth o'r goblygiadau tymor hir os 'na wneir dim' i roi sylw i bob mater penodol o ystyried y tueddiadau presennol a'r rhai a ragwelir. Mae rhai o'r dadansoddiadau a sylwadau yn yr adrannau hyn yn dangos yn glir iawn beth fyddai canlyniadau diffyg gweithredu. Er bod ansawdd a chynnwys yr adran hon yn amrywio'n fawr ar draws y 32 mater, mae hwn yn ddata cyfoethog a gallai fod yn sylfaen ar gyfer dadansoddiad manylach o ddyfodol Powys a'r saith cymuned.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu ei hadroddiad ar Dueddiadau'r Dyfodol ym Mai 2017. Y bwriad ar hyn o bryd yw cynnwys 6 thema allweddol sef: Poblogaeth, Economi, Adnoddau Naturiol a'r Newid yn yr Hinsawdd, Iechyd, Defnydd Tir a Seilwaith, a Newid Cymdeithasol. Wrth iddo ddatblygu bydd angen i'ch asesiad roi sylw i'r data a gynhwysir yn hwn, ond dylai anelu at roi pwyslais cliriach ar heriau'r tymor hir i lesiant yn yr asesiad cychwynol a gyhoeddir yn y misoedd nesaf.

10. Materion trawsffiniol

Mae integreiddio a chydweithio'n ganolog i gyrrff cyhoeddus pan fyddant yn cymhwyso egwyddor datblygu cynaliadwy i'w gweithgareddau. Un o'n nodau fu adolygu i ba raddau y mae'r asesiad wedi ystyried materion trawsffiniol ar gyfer gweithredu rhanbarthol a chenedlaethol.

Credwn y byddai dealltwriaeth a dadansoddiad manylach o'r materion allweddol rhanbarthol a thrawsffiniol sy'n effeithio ar Bowys yn fanteisiol, i lywio proses y cynllun llesiant. Nodir bod y mater hwn wedi'i godi yn ystod yr alwad ffôn gyda thîm yr asesiad. Gallai'r asesiad gynnig eglurhad cliriach ynghylch rôl a pherthynas Powys â'r awdurdodau cyfagos yng Nghymru a Lloegr. Bydd agwedd ranbarthol i'r perthnasoedd o ran y pedair thema llesiant ac o ran darparu gwasanaethau a mynediad at wasanaethau ac mae angen gwneud hynny'n fwy eglur yn yr asesiad. Bydd hefyd yn bwysig fod y BGCau yn ystyried casgliadau asesiadau llesiant lleol eu cymdogion wrth fynd ati i ddatblygu eu cynllun.

Mae angen rhoi ystyriaeth i'r sylwadau blaenorol ym mhwynt 5 ynghylch Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yng nghyd-destun rôl Powys yn rhanbarth ehangach De Cymru. Mae gan Bowys rôl bendant o ran llesiant ei dinasyddion a'i hymwelwyr trwy ei thirluniau a'i hamgylchedd ac mae angen cydnabyddiaeth gryfach o hynny ar draws y pedair thema llesiant, nid dim ond yr Amgylchedd.

11.. Ansawdd data a bylchau data

Bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw sicrhau y bydd cynllunio llesiant yn broses barhaus lle bydd y sylfaen o dystiolaeth yn gwella'n raddol dros amser i alluogi cyrrff cyhoeddus ac eraill i ddeall a chynllunio ar gyfer llesiant yn eu cymunedau. Rydym yn awyddus i ddeall ymagwedd y BGCau at ansawdd data a bylchau data yn ystod yr asesiad a materion data wrth symud ymlaen.

Mae'n wirioneddol gadarnhaol gweld dadansoddiad o'r 'Bwlch yn ein Tystiolaeth' yn Nogfen 11, a'r adfyfyrion ar y broses asesu llesiant yn Nogfen 7. Dengys hyn ddealltwriaeth aeddfed o anghenion data cenedlaethol, rhanbarthol a lleol a sut gellid bod wedi gwella'r broses er mwyn sicrhau gwell rheoli data ac ansawdd data. Mae'r hunan-adfyfyrion hwn gan dîm yr asesiad i'w ganmol.

Gellid gwella'r rhestr o 'Fylchau' drwy gyfleu pa rai o'r rhain sy'n hollbwysig er mwyn datblygu'r Cynllun yn y flwyddyn nesaf a pha rai y byddid yn eu datblygu dros gyfnod hwy. Byddai hyn yn galluogi'r BGC i adeiladu ar waith presennol a chynllunio ar gyfer gwella ansawdd data yn ystod y flwyddyn nesaf a'r tu hwnt, gan helpu partneriaid y BGC i adeiladu ymchwil a rheoli data i mewn i'w cynlluniau busnes a chorfforaethol. Byddai hefyd yn rhoi syniad i Lywodraeth Cymru, y Swyddfa ac Uned Ddata Cymru ynghylch anghenion y BGC.

12. Defnyddio egwyddor datblygu cynaliadwy

Mae'r canllawiau statudol yn gosod cyfrifoldeb ar y BGCau i *fwyafu* eu cyfraniad i'r nodau llesiant trwy ddefnyddio egwyddor datblygu cynaliadwy yn eu dull o weithio. Rydym wedi bod yn awyddus i ddeall sut mae egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum dull o weithio wedi cael eu defnyddio yn ystod asesiadau llesiant.

Mae'n amlwg bod elfennau o'r dull a ddefnyddiwyd gennych sy'n dangos sut yr ystyriwyd y pum dull o weithio fel rhan o broses datblygu'r asesiad:

Tymor hir – trwy'r cwestiwn senario o dan y 32 mater hollbwysig
Ymgysylltu – trwy'r gwaith ymgynghori sydd ar waith ar hyn o bryd
Cydweithio – trwy dîm prosiect y BGC a'r ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid
Ataliaeth – trwy'r cwestiwn mesur ataliol o dan y 32 mater hollbwysig

Fodd bynnag, nid oes llawer o dystiolaeth bod egwyddor datblygu cynaliadwy wedi cael ei ddefnyddio fel dull gweithredu yn yr asesiad hwn (gweler y sylwadau ar *Integreiddio* ym mhwynt 9). Byddai'r asesiad yn elwa o fod yn fwy eglur ynghylch sut mae'r egwyddor wedi newid ymagwedd y BGC at y gwaith hwn, a sut bydd yr egwyddor yn llywio'r broses cynllunio llesiant.

13. Edrych ymlaen at gynhyrchu'r cynllun

Mater hollbwysig i'n hadolygiad o'r asesiad hwn oedd ystyried a oedd y dogfennau'n eglur ynghylch sut byddai'r gwaith yn cael ei symud yn ei flaen i ddatblygu amcanion lleol a chynhyrchu cynllun. Mae datganiad y Cadeirydd yn cynnig eglurhad hwylus iawn ynghylch diben yr asesiad a pham y cafodd ei gynhyrchu.

Fodd bynnag, mae angen i Ddogfen 1 - 'y Brif Ddogfen' a Dogfen 7 ynghylch 'Cynhyrchu'r asesiad llesiant' ddangos y camau nesaf; sut gall unigolion a sefydliadau barhau i gymryd rhan; yr amserlen; a'r hyn y mae'r Cynllun yn bwriadu ei wneud. Ar hyn o bryd, mae rhestr o 'gynhyrch' yr asesiad ynghyd â manylion cyswllt. Deallwn o'r sgwrs ffôn fod llawer o'r deunydd hwn wedi cael ei baratoi ar gyfer ei gynnwys yn y fersiwn derfynol o'r asesiad.

Yn bwysicach, mae angen eglurhad pellach er mwyn cyfleu sut bydd y deunydd a gasglwyd yn yr asesiad yn cael ei ddefnyddio i lunio amcanion ar gyfer y BGC. Dylai'r gwaith diweddar i archwilio'r data gyda phartneriaid fod yn rhan o'r naratif hwn.

Credwn y gallai'r deunydd a gynhyrchwyd gael ei ddatblygu i edrych yn llawer mwy 'tuag allan' fel offeryn cyfathrebu i gynnwys pobl, cymunedau a phartneriaid ym mhroses y cynllun llesiant ym Mhowys. Roedd yn galonogol clywed tîm yr asesiad yn dweud (yn ystod yr alwad ffôn) fod dulliau o ddehongli mwy ar ddata yn yr asesiad yn cael eu hystyried yn barod, er mwyn i bobl a phartneriaid allu deall yn hwylus beth yw natur llesiant ym Mhowys.

14. Trosolwg

Mae'r dadansoddiad dogfennol uchod wedi nodi nifer o feysydd lle credwn y gallai'r asesiad gael ei gryfhau, yn y tymor byr, cyn iddo gael ei gyhoeddi ac yn y tymor canol wrth i'r dadansoddiad o'r ymateb ddatblygu ac wrth i'r Cynllun gael ei gynhyrchu. Ar ben hynny, trefnwyd galwad ffôn i ni fedru trafod yr asesiad gydag aelodau o dîm y BGC oedd wedi ymwneud â'r broses. Bwriad yr alwad ffôn oedd rhoi cyfle i ni egluro/archwilio materion arbennig a amlygwyd yn ein hadolygiad cychwynnol a galluogi'r BGC i roi sylw i faterion sy'n rhan o gyd-destun ehangach cynhyrchu'r asesiad.

Mae nifer o themâu eang, cylchol clir wedi dod i'r amlwg o'n hadolygiad a'n sgwrs. Mae'n amlwg i hon fod yn dasg anferthol dros gyfnod cymharol fyr o amser, a bod y partneriaid wedi mynd i ymdrech fawr i lunio'r asesiad drafft. Dylai'r corff o waith hyd yn hyn ac yn enwedig y ffordd y cafodd ei reoli a'i strwythuro, alluogi'r BGC i ychwanegu at yr Asesiad dros amser a datblygu dealltwriaeth ehangach o lesiant ym Mhowys.

Credwn fod angen mynd i'r afael â'r materion canlynol er mwyn gwella'r asesiad;

Y Brif Ddogfen – dylai'r ddogfen hon ddarparu crynodeb cliriach a mwy cydlynol o'r broses ymgysylltu, y cyd-destun eang ar gyfer llesiant ym Mhowys, y sbardunau allanol a'r heriau eang; y prif ganfyddiadau o dan y pedair thema; crynodeb byr o'r 32 mater hollbwysig; sylwebaeth eang ar oblygiadau posibl y materion hyn i wasanaethau cyhoeddus (a'r her sy'n wynebu'r BGC); bylchau data, y broses o gynhyrchu'r cynllun. Gwnaed gwaith cadarnhaol iawn ar yr asesiad y mae angen i'r ddogfen hon ei gofnodi a'i gyfleu, a'i ddistyllu o'r 13 dogfen unigol sydd ar gael ar hyn o bryd.

Integreiddio ar draws themâu - mwy o ffocws ar y gydberthynas rhwng y data a gasglwyd ynghylch y pedair thema a goblygiadau hynny i lesiant

Dehongli'r data – mwy o eglurhad ynghylch sut mae'r materion a nodwyd drwy'r data yn effeithio ar lesiant unigolion a chymunedau

Heriau - darparu dadansoddiad cliriach o'r heriau (a'r cyfleoedd) sy'n wynebu llesiant yn y tymor byr, y tymor canol a'r tymor hir

Cyd-destun rhanbarthol - gwell dealltwriaeth o gydberthynas Powys ag awdurdodau cyfagos yng Nghymru a Lloegr a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Llesiant diwylliannol - dealltwriaeth ehangach o asedau diwylliannol a'u rôl o ran llesiant ledled Powys

Tueddiadau'r dyfodol – rhoi mwy o sylw i effaith bosibl tueddiadau tymor hir ar lesiant ym Mhowys gyfan ac yn y pedair ardal gymunedol

Cydnabyddir y gellir mynd i'r afael â rhai o'r rhain yng ngweithgareddau arfaethedig y BGC rhwng nawr ac adeg cyhoeddi'r asesiad yn derfynol.

Gobeithiwn y bydd y materion a godwyd uchod yn llywio'r cydweithio hwn fel bod yr elfennau hyn yn cael eu hadlewyrchu'n gryfach gan y BGC yn Asesiad Llesiant terfynol Powys a thrwy gydol y broses cynllunio llesiant.